Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

ADRODDIAD Y PWYLLGOR

HYGYRCHEDD GORSAFOEDD PLEIDLEISIO YNG NGHYMRU

RHAGFYR 2007

CYNNWYS **TUDALEN**

Aelodau'r Pwyllgor

Cyflwyniad y Cadeirydd 1

Cyflwyniad a Chefndir 2

Y Fframwaith Deddfwriaethol 3

Themâu ac Argymhellion: 4

- Gwella'r sail dystiolaeth 5
- Darparu offer 6
- Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant 7
- Cyfathrebu a hyrwyddo arferion da 9

Atodiad 1 Crynodeb o'r Argymhellion 11

Atodiad 2 Cylch Gorchwyl
Y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd 13

Atodiad 3 Llythyr i'r Comisiwn Etholiadol ar safonau perfformiad 14

AELODAU'R PWYLLGOR

Ann Jones AC (Cadeirydd)
Llafur
Dyffryn Clwyd

Mick Bates AC
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Sir Drefaldwyn

Angela Burns AC
Plaid Geidwadol Cymru
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Christine Chapman AC
Llafur
Cwm Cynon

Mark Isherwood AC
Plaid Geidwadol Cymru
Gogledd Cymru

Bethan Jenkins AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Helen Mary Jones AC
Plaid Cymru
Llanelli

Lynne Neagle AC
Llafur
Torfaen

Joyce Watson AC
Llafur
Canolbarth a Gorllewin Cymru

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Fel Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yr Ail Gynulliad (2003-2007), fe wnaethom gynnal Prosiect Craffu yn edrych ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru. Fel rhan o'r hyn a ddarganfuwyd, bu inni ddysgu fod llawer o bobl yn credu bod mynediad i bobl anabl mewn gorsafoedd pleidleisio yn gwella er y nodwyd bod lle i wella eto. Yn dilyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) ym mis Mai 2007, yr oedd gen i ddiddordeb mawr yn narganfyddiadau Arolwg Etholiadau'n Eithrio Scope Cymru 2007 oedd yn ail-asesu mynediad i orsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn ystod etholiad 2007. Pan nododd Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal y byddent yn hoffi cynnal ymchwiliad oedd yn canolbwyntio ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru, yr oeddwn yn falch o'u cefnogi.

Cytunodd yr Ymchwiliad i gyflwyno adroddiad a rhoi argymhellion mewn da bryd i alluogi iddynt gael yr effaith mwyaf cyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2008. Mae'n galonogol i glywed fod grantiau ar gael i awdurdodau lleol brynu offer arbenigol i helpu pobl anabl mewn gorsafoedd pleidleisio ac fel y dengys ein hargymhellion, mae angen i ni ganoli ein hymdrechion er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwneud am y grantiau hynny a bod pobl anabl yn gwybod y bydd pob cymorth yn cael ei gynnig iddynt yn y gorsafoedd pleidleisio. Yr oedd y Pwyllgor yn sylweddoli y byddai datblygiadau ym myd technoleg yn darparu dewisiadau eraill i bobl anabl yn hytrach nag ymweld â gorsaf bleidleisio ond yr oeddem yn teimlo'n gryf iawn y dylai pob person yng Nghymru gael yr hawl i bleidleisio yn y modd yr oedd yn dewis.

'Rwy'n ddiolchgar i bawb a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac a'n cynorthwyodd ni i bwyso a mesur. Hoffwn ddiolch hefyd i Mike German, er nad yn Aelod o'r Pwyllgor a fynychodd ein holl sesiynau tystiolaeth ac a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i'r adroddiad hwn. Yr ydym wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gobeithiwn y bydd y rhain yn arwain at welliannau pellach o ran mynediad ar gyfer etholiadau lleol 2008.

Ann Jones
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Gwnaeth Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad blaenorol gynnal ymchwiliad i drefniadau etholiadol ym mis Rhagfyr 2006. Cynhyrchodd eu hadroddiad nifer o argymhellion yn ymwneud â gwella hygyrchedd. Ar ben hyn, mae Scope, sef sefydliad anabledd yng Nghymru a Lloegr â'r nod o sicrhau bod pobl anabl yn cyflawni cydraddoldeb, wedi bod yn ymgyrchu ynghylch mater democratiaeth hygyrch er 1992. Yr enw ar yr ymgyrch a'i hymchwil cysylltiedig yw Etholiadau'n Eithrio.

Yn 2003, cyflwynwyd dimensiwn penodol i Gymru pan grëwyd Etholiadau'n Eithrio Cymru, i asesu hygyrchedd etholiadau yng Nghymru. Ers etholiadau 2003 ar gyfer y Cynulliad, mae Etholiadau'n Eithrio Cymru wedi edrych ar bob etholiad o bwys a gynhaliwyd yng Nghymru.

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2007, cytunodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ymgymryd ag ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, gan dynnu ar ddarganfyddiadau arolwg Etholiadau'n Eithrio Cymru a gyhoeddwyd fis Mai 2007.[1]

Roedd y Pwyllgor am gyflawni darn o waith byr, â chanolbwynt tynn, er mwyn ychwanegu dylanwad at ymgyrch Scope i wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Cydnabu'r Pwyllgor fod yna lu o ffactorau eraill sy'n effeithio ar hygyrchedd democratiaeth i bobl anabl, er enghraifft y rheiny sy'n gysylltiedig â chofrestru ar gyfer etholiadau, a'r gallu i gyrraedd gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n awyddus i gyhoeddi eu hargymhellion erbyn dechrau toriad y Nadolig, er mwyn iddynt gael cymaint o ddylanwad â phosibl cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2008. Felly y penderfyniad oedd canolbwyntio ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn unig, a chytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

- craffu ar gyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru at sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn fwy hygyrch; a
- gwneud argymhellion o ran y camau y dylid eu cymryd i wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio erbyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2008.

Wrth fwrw ymlaen â'i ymchwiliad, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth amrywiaeth o dystion, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r rheiny sy'n gyfrifol am drefnu a gweithredu etholiadau, a sefydliadau sy'n cynrychioli pleidleiswyr anabl [Atodiad 2].

[1] http://www.pollsapartcymru.org.uk/2007/docs/Polls_Apart_Cymru_2007.pdf

Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

Nid oes gan y Cynulliad bwerau deddfwriaethol eang o ran etholiadau.

Senedd y DU sydd â'r prif bwerau o ran etholiadau a chydraddoldeb i bobl anabl, mewn deddfwriaeth sylfaenol megis *Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006, Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005*, *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* fel y'i diwygiwyd a *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.*

Fodd bynnag, fe wnaeth *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* roi pwerau i'r Cynulliad hybu ymwybyddiaeth cyhoeddus o'r system etholiadol a llywodraeth ddatganoledig, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gefnogaeth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi pasio is-ddeddfwriaeth: *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006*, sy'n galluogi ad-dalu costau fel a ganlyn:

- Ad-dalu 50% o gost rampiau dros dro (*)
- Ad-dalu 100% o gost dyfeisiau cyffwrdd i bleidleisio
- Ad-dalu 100% o gost papurau pleidleisio print bras
- Ad-dalu 100% o gost dodrefn gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys bythau pleidleisio lefel isel
- Ad-dalu 100% o gostau (hyd at derfyn uchaf) hyfforddi clercod pleidleisio a swyddogion llywyddu.

Yn achos etholiadau'r Cynulliad a gynhaliwyd ym mis Mai 2007, roedd Swyddogion Canlyniadau'n gallu adfer y costau y manylir arnynt uchod. Cynlluniwyd y darpariaethau uchod yn y Mesur i wella hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio ac i sicrhau bod pobl sy'n ymwybodol o'u dyletswydd i hwyluso pleidleisio'n eu staffio.

Gan nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bŵer i wneud cyfraith etholiadau, y Grŵp Cynllunio Etholiadau yw ei phrif gyfrwng ar gyfer cydweithio ag eraill yn y gymuned etholiadol a hybu arfer gorau. Sefydlwyd y Grŵp yn 2005 i ddarparu trosolwg strategol ar faterion etholiadol yng Nghymru. Mae'n cynnwys pobl â chyfrifoldebau etholiadol, sefydliadau sydd â diddordeb yn y broses etholiadol a grwpiau sy'n cynrychioli pleidleiswyr sydd â gofynion penodol o ran trefniadau etholiadol.

* Gellir hawlio'r 50% arall oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder dan yr is-ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r ffioedd a'r taliadau y gellir eu had-dalu am etholiadau seneddol.

THEMÂU AC ARGYMHELLION

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith tystion bod awdurdodau lleol wedi ymdrechu i wella hygyrchedd corfforol gorsafoedd pleidleisio, a bod mynediad yn well yn etholiad diwethaf y Cynulliad yn 2007 nag ydoedd mewn etholiadau blaenorol. Fodd bynnag, cyflwynwyd i Aelodau'r Pwyllgor enghreifftiau o ystod o broblemau roedd pleidleiswyr anabl wedi'u hwynebu yn ystod yr etholiad ym mis Mai 2007.

Roedd mwyafrif llethol yr Aelodau'n cytuno y dylai pobl anabl allu dewis sut i bleidleisio; efallai bod dulliau trwy'r post a dulliau electronig yn cynnig ffyrdd amgen y bydd rhai pobl am eu defnyddio, ond dylai'r rheiny sydd am fwrw eu pleidlais mewn gorsaf bleidleisio allu gwneud hynny. Cydnabu'r Aelodau ei bod yn anodd datrys rhai problemau mynediad, er enghraifft, lle nad yw man cyfarfod cyhoeddus mewn pentref yn hygyrch ond byddai symud i fan arall rai milltiroedd i fwrdd o bosibl yn golygu canran sylweddol is o bobl yn pleidleisio. Fodd bynnag, daethant i'r casgliad y gellid datrys llawer o'r problemau mynediad y soniodd pobl anabl amdanynt yn Arolwg Etholiadau'n Eithrio Scope Cymru, ac y soniodd tystion anabl amdanynt, trwy gyfuniad o hyfforddi, codi ymwybyddiaeth, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a newid ymddygiad.

Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad:

- Yr angen i wella'r sail dystiolaeth;
- Pwysigrwydd bod â chyfarpar arbenigol wedi'u gosod, lle bo angen;
- Yr effaith y gall ymagweddau a dealltwriaeth staff etholiadol o ran materion cydraddoldeb i bobl anabl ei chael ar y profiad pleidleisio;
- Pwysigrwydd cyfathrebu a hybu arfer da yn well.

1. Gwella'r sail dystiolaeth

Mae nifer o sefydliadau, yn enwedig Scope Cymru, wedi gwneud cyfraniadau pwysig at adeiladu sail dystiolaeth sy'n ymwneud â hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. O ganlyniad, mae rhai o'r prif rwystrau i hygyrchedd wedi'u nodi, mae rhai camau strategol ac ymarferol wedi'u cymryd, ac mae sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl a'r rheiny sy'n gyfrifol am etholiadau wedi cydnabod y bu gwelliant.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod gwelliant yn parhau ledled Cymru, ac i nodi gorsafoedd pleidleisio sy'n arbennig o anhygyrch a gwneud rhywbeth yn eu cylch, mae angen cryfhau'r sail dystiolaeth. Mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (CGE) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cefnogi nodau Scope Cymru wrth gynnal Arolwg Etholiadau'n Eithrio. Er hynny, maent wedi lleisio pryderon ynghylch cyfyngiadau'r fethodoleg ymchwilio y seiliwyd eu darganfyddiadau arnynt, er enghraifft, roedd maint y sampl yn gymharol fach ac yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd yn yr arolwg blaenorol yn 2005. Ni wnaeth yr adroddiad terfynol nodi gorsafoedd pleidleisio a oedd yn arbennig o hygyrch neu'n arbennig o anhygyrch, ac ni wnaeth nodi gwelliant, neu ddiffyg gwelliant, mewn ardaloedd awdurdodau lleol penodol. Cydnabu'r Aelodau fod ystyriaethau o ran costau wedi effeithio ar fethodoleg Scope Cymru, ar roeddent yn awyddus i sicrhau bod gwaith datblygu'r sail dystiolaeth yn cael ei gynllunio a'i ariannu'n briodol.

Argymhelliad 1: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi rhaglen o arolygon hygyrchedd rheolaidd i nodi arfer da, i nodi lle mae angen gwella ac i alluogi monitro gwelliant o'r naill flwyddyn i'r llall.*

Argymhelliad 2: *Dylai'r Comisiwn Etholiadol ymgorffori dimensiwn cydraddoldeb i bobl anabl mewn nifer o ddangosyddion perfformiad ar gyfer etholiadau a refferenda, fel a gynhwysir yn ymateb y Pwyllgor i ddogfen ymgynghori'r Comisiwn Etholiadol [Atodiad 3].*

2. Darparu cyfarpar

Mae adroddiad Arolwg Etholiadau'n Eithrio yn dwyn sylw at rôl cyfarpar wrth sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch i bawb. Bydd ystod y cyfarpar arbenigol y bydd eu hangen yn amrywio o'r naill orsaf bleidleisio i'r llall. Er enghraifft, er ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob orsaf bleidleisio fod â phapurau pleidleisio print bras a'u harddangos, efallai nad oes angen rampiau dros dro ar y rheiny sydd mewn mannau cyfarfod hygyrch. Hefyd, yn achos cyfarpar a brynir i wneud gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch ar gyfer un etholiad, gellir yn aml eu hailddefnyddio mewn etholiadau yn y dyfodol, ac felly ni fydd y costau cysylltiedig ar yr un lefel ym mhob etholiad.

Rhoddodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 25 Hydref 2007, gan arddangos enghraifft o fwth pleidleisio lefel isel. Gwnaeth cynllun y bwth argraff ar yr Aelodau gan na fyddai'r elfennau a fyddai'n helpu pobl mewn cadair olwyn yn atal pobl nad ydynt yn anabl rhag ei ddefnyddio hefyd, a gallai fod o fudd i bobl sy'n dymuno eistedd wrth bleidleisio. Nododd y CGE yn eu papur y byddai Gweinyddiaeth Gyfiawnder ac Uned Hawliadau Etholiadau Llywodraeth y DU yn darparu cymorth grant o 80% tuag at gostau cael bythau gwell i gymryd lle'r rheiny ar yr hen arddull.

Hefyd, fe fanylodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ei bapur i'r Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2007 ar y grantiau sydd ar gael dan ddarpariaethau *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006* (gweler dudalen 3).

Argymhelliad 3: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog Swyddogion Canlyniadau'n gryf i sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer mynediad corfforol ar gael ym mhob gorsaf bleidleisio, i'w gwneud mor hygyrch â phosibl.*

3. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Er bod gan gyfarpar rôl bwysig, gall ymagweddau, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff etholiadol effeithio'n fawr ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Mewn llawer o achosion, mae pobl anabl wedi wynebu rhwystrau y gellid bod wedi'u chwalu neu eu lleihau'n rhwydd pe bae staff etholiadol wedi bod â gwell ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb i bobl anabl, a phe baent wedi'u hyfforddi'n fwy effeithiol, er enghraifft, i ddefnyddio cyfarpar arbenigol. Roedd y Pwyllgor yn pryderu pan glywodd am achosion lle nad oedd rampiau dros dro wedi'u gosod yn briodol, lle roedd goleuadau oedd wedi'u trefnu'n wael yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl â nam ar eu golwg bleidleisio, a lle nad oedd papurau pleidleisio print bras wedi'u harddangos.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen mwy o ymwybyddiaeth a hyfforddiant mwy effeithiol ar y staff sydd a wnelo â threfniadau etholiadol a'r rheiny sydd a wnelo â'u gweithredu ar ddiwrnod yr etholiad. Mae llawer o'r staff sydd a wnelo ag etholiadau'n gweithio i awdurdodau lleol, ac maent fel rheol yn gweithio mewn rolau eraill. Felly bydd ansawdd yr hyfforddiant cydraddoldeb a chyfleoedd cynyddu ymwybyddiaeth y bydd gweithwyr yr awdurdodau lleol yn eu dilyn yn gyffredinol gydol y flwyddyn yn dylanwadu ar allu staff etholiadol i wneud gorsafoedd pleidleisio mor hygyrch â phosibl. Teimlai Aelodau na ddylai hyfforddiant cydraddoldeb fod yn ymarfer sydd ond yn codi unwaith ond yn berthnasol i waith pob dydd pobl ac o bosibl yn gysylltiedig â rheoli perfformiad. Hefyd, ym marn yr Aelodau, mae cynnwys pobl anabl a'r rheiny sy'n arbenigo mewn materion cydraddoldeb ym mhob agwedd ar gynllunio a gweithredu etholiadau yn ofyniad allweddol wrth geisio datrys problemau sy'n bodoli.

Dywedodd cynrychiolwyr Anabledd Cymru wrth y Pwyllgor am y rôl hanfodol roeddent yn ei gweld ar gyfer Swyddogion Mynediad awdurdodau lleol wrth asesu gorsafoedd pleidleisio cyn etholiadau, oherwydd eu harbenigedd a'u dealltwriaeth ehangach o faterion hygyrchedd. Roedd clywed mai dim ond naw o'r 22 awdurdod lleol sy'n cyflogi Swyddog Mynediad ar gyfer pobl anabl, a bod y rhan fwyaf o'r rhain yn gweithio'n rhan-amser neu'n rhannu swydd, yn destun pryder i Aelodau. Bu Anabledd Cymru yn siarad hefyd am bwysigrwydd grwpiau mynediad yn gweithio ar y cyd â Swyddogion Mynediad, gan fod eu haelodaeth yn tueddu i gynnwys pobl ag ystod o namau a phroblemau, ac felly maent yn cynrychioli sbectrwm eang o brofiad.

Dywedodd Anabledd Cymru a Scope Cymru fel ei gilydd eu bod o'r farn mai person neu grŵp anabl all gyflenwi hyfforddiant cydraddoldeb orau, gan mai dyma oedd y ffordd orau i bobl ddeall y rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu.

Hefyd, argymhellodd Scope Cymru y dylid cynnwys adran yng nghynllun cydraddoldeb i bobl anabl pob awdurdod lleol sy'n edrych yn benodol ar hygyrchedd democratiaeth, gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn adlewyrchu eu cyfrifoldeb am hybu ymgysylltiad pobl anabl â materion gwleidyddol a chymdeithasol, a hynny mewn modd rhagweithiol, ymarferol.

Argymhelliad 4: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i fanteisio'n fwy effeithiol ar yr adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn eu sefydliadau. Dylid cynnwys staff sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb i bobl anabl yn y broses cynllunio etholiadol, er enghraifft y rheiny sy'n gweithio mewn adrannau adnoddau dynol neu gynllunio. Dylid hefyd rhoi'r cyfle i staff anabl gynghori a gwneud awgrymiadau.*

Argymhelliad 5: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cysylltiadau â grwpiau mynediad lleol, sefydliadau i bobl anabl a phobl anabl leol, ac archwilio ffyrdd y gellid eu cynnwys mewn sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o anabledd a hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gyfer holl staff yr awdurdodau lleol, gan sicrhau bod staff sydd a wnelo ag etholiadau'n ymwybodol o'r pethau penodol y mae angen iddynt eu hystyried.*

Argymhelliad 6: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau i sicrhau bod yr holl staff gorsafoedd pleidleisio'n gallu gwneud amgylchedd gorsaf bleidleisio mor hygyrch â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys gwybod sut i weithredu cyfarpar perthnasol yn effeithiol (er enghraifft, bythau y mae modd eu haddasu a rampiau dros dro), gwybod sut i osod goleuadau fel eu bod mor effeithiol â phosibl, a sut i osod cyfarpar a phapurau pleidleisio print bras yn y lleoliad gorau.*

Argymhelliad 7: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i fanylu ar y camau sy'n cael eu cymryd i wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn eu cynlluniau gweithredu cynllun cydraddoldeb i bobl anabl.*

4. Cyfathrebu a hybu arfer da

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan yr holl dystion yn awgrymu y gallai cyfathrebu da wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, tra bu cyfathrebu gwael yn ffactor allweddol yn y problemau y mae rhai pleidleiswyr anabl wedi'u hwynebu yn eu gorsaf bleidleisio leol. Mae yna le i wella'r cyfathrebu rhwng cyrff etholiadol a phleidleiswyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl, a rhwng y rheiny sydd a wnelo â chynllunio a gweithredu etholiadau pan maent yn digwydd. Hefyd, gellid hybu'n well yr ymrwymiad i gydraddoldeb i bobl anabl, a'r gefnogaeth sydd ar gael i gyrff etholiadol gyflawni hyn mewn gorsafoedd pleidleisio.

Dygodd Ruth Scott o Scope Cymru sylw at yr angen am gyfathrebu mwy effeithiol rhwng cyrff etholiadol a phobl anabl pan eglurodd i'r Pwyllgor fod pobl nad ydynt yn anabl weithiau'n ei chael yn anodd i adnabod y rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu. Awgrymodd y byddai modd syml o ddatrys hyn pe byddai cyrff etholiadol yn annog mwy o bobl anabl i wirfoddoli i fod yn staff gorsafoedd pleidleisio.

Dygodd CGE sylw at anhawster staff etholiadol wrth gydbwyso'r ymdrech i gael nifer uchel o bobl yn pleidleisio â materion hygyrchedd. Roeddent o'r farn y gellid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion anabledd, a chyfleu negeseuon positif i annog pleidleiswyr heb broblemau mynediad i ddeall a derbyn unrhyw newidiadau i'w gorsafoedd pleidleisio yn well. Yn yr un modd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y gallai cyrff etholiadol wneud mwy i egluro i bobl anabl yr angen i gydbwyso mynediad â materion nifer y bobl yn pleidleisio, gan roi cyfle i bobl anabl a rhai nad ydynt yn anabl awgrymu atebion posibl.

Nododd y Pwyllgor hefyd bod angen mecanweithiau mwy effeithiol ar gyfer cyfathrebu arfer da. Dygodd CGE sylw at nifer o enghreifftiau o arfer da, megis penodi Arolygwyr Gorsafoedd Pleidleisio, ond cytunodd nad yw'r dull o weithredu'n gyson rhwng yr holl orsafoedd pleidleisio ar hyn o bryd. Yn yr un modd, dygodd CLILC sylw at waith Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gasglu ynghyd gwybodaeth am adeiladau hygyrch a'r angen i sicrhau bod staff sydd a wnelo â threfnu etholiadau'n ymwybodol o hyn.

Cytunodd y Pwyllgor fod ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i bobl anabl yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio mor hygyrch â phosibl, a bod cyfathrebu da yn hanfodol i hynny. Gwnaeth bron iawn pob tyst sylw am ddiffyg cysonder, boed o fewn dosbarthau pleidleisio a rhyngddynt neu o'r naill flwyddyn i'r llall. Siaradodd Kay Jenkins ar ran Scope Cymru am ei phrofiadau ei hun. Roedd y rhain yn bositif iawn ar y dechrau, ond difethwyd hyn y flwyddyn wedyn gan nad oedd bwth pleidleisio lefel isel wedi'i ddarparu yn yr orsaf bleidleisio, er bod un wedi'i ddarparu o'r blaen. Roedd yn ymddangos mai cyfathrebu gwael rhwng y rheiny oedd a wnelo â chynllunio a gweithredu'r etholiad eleni a'r rheiny a wnaeth pethau'n iawn mewn blynyddoedd blaenorol oedd yn gyfrifol am brofiad Kay.

Argymhelliad 8: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydlynu'r gwaith o gynhyrchu rhestr o gyfarwyddyd a chyngor sy'n bodoli ar gyfer staff etholiadau ar faterion cydraddoldeb a mynediad (gan gynnwys, er enghraifft, rhestr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru o adeiladau hygyrch, a deunydd cyfarwyddyd y Comisiwn Etholiadol ar gydraddoldeb a mynediad). Dylid anfon y rhestr a chopïau o adnoddau allweddol at Swyddogion Canlyniadau a Chydlynwyr Mynediad awdurdodau lleol ar ddechrau pob proses cynllunio etholiadol.*

Argymhelliad 9: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol gydweithio i hybu eu hymrwymiad i alluogi pobl anabl a rhai â nam ar eu synhwyrau i bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio leol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylid rhoi gwybod yn well i bleidleiswyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl am yr addasiadau sydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, ac am y materion y mae angen i staff etholiadol eu hystyried wrth ddewis man cyfarfod sy'n ganolog ac sy'n gorfforol hygyrch.*

Argymhelliad 10: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i hybu cyfleoedd swyddi i staff etholiadol yn fwy effeithiol ymhlith pobl anabl.*

Argymhelliad 11: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydlynu mecanwaith effeithiol ar gyfer rhannu arfer da rhwng rhanddeiliaid allweddol.*

Argymhelliad 12: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hybu'r ffaith bod grantiau ar gael ar gyfer cyfarpar a hyfforddiant etholiadol.*

Atodiad 1

Crynodeb o'r Argymhellion

Argymhelliad 1: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi rhaglen o arolygon hygyrchedd rheolaidd i nodi arfer da, i nodi lle mae angen gwella ac i alluogi monitro gwelliant o'r naill flwyddyn i'r llall.*

Argymhelliad 2: *Dylai'r Comisiwn Etholiadol ymgorffori dimensiwn cydraddoldeb i bobl anabl mewn nifer o ddangosyddion perfformiad ar gyfer etholiadau a refferenda, fel a gynhwysir yn ymateb y Pwyllgor i ddogfen ymgynghori'r Comisiwn Etholiadol [Atodiad 3].*

Argymhelliad 3: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog Swyddogion Canlyniadau'n gryf i sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer mynediad corfforol ar gael ym mhob gorsaf bleidleisio, i'w gwneud mor hygyrch â phosibl.*

Argymhelliad 4: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i fanteisio'n fwy effeithiol ar yr adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn eu sefydliadau. Dylid cynnwys staff sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb i bobl anabl yn y broses cynllunio etholiadol, er enghraifft y rheiny sy'n gweithio mewn adrannau adnoddau dynol neu gynllunio. Dylid hefyd rhoi'r cyfle i staff anabl gynghori a gwneud awgrymiadau.*

Argymhelliad 5: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cysylltiadau â grwpiau mynediad lleol, sefydliadau i bobl anabl a phobl anabl leol, ac archwilio ffyrdd y gellid eu cynnwys mewn sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o anabledd a hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gyfer holl staff yr awdurdodau lleol, gan sicrhau bod staff sydd a wnelo ag etholiadau'n ymwybodol o'r pethau penodol y mae angen iddynt eu hystyried.*

Argymhelliad 6: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau i sicrhau bod yr holl staff gorsafoedd pleidleisio'n gallu gwneud amgylchedd gorsaf bleidleisio mor hygyrch â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys gwybod sut i weithredu cyfarpar perthnasol yn effeithiol (er enghraifft, bythau y mae modd eu haddasu a rampiau dros dro), gwybod sut i osod goleuadau fel eu bod mor effeithiol â phosibl, a sut i osod cyfarpar a phapurau pleidleisio print bras yn y lleoliad gorau.*

Argymhelliad 7: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i fanylu ar y camau sy'n cael eu cymryd i wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn eu cynlluniau gweithredu cynllun cydraddoldeb i bobl anabl.*

Argymhelliad 8: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydlynu'r gwaith o gynhyrchu rhestr o gyfarwyddyd a chyngor sy'n bodoli ar gyfer staff etholiadau ar faterion cydraddoldeb a mynediad (gan gynnwys, er enghraifft, rhestr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru o adeiladau hygyrch, a deunydd cyfarwyddyd y Comisiwn Etholiadol ar gydraddoldeb a mynediad). Dylid anfon y rhestr a chopïau o adnoddau allweddol at Swyddogion Canlyniadau a Chydlynwyr Mynediad awdurdodau lleol ar ddechrau pob proses cynllunio etholiadol.*

Argymhelliad 9: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol gydweithio i hybu eu hymrwymiad i alluogi pobl anabl a rhai â nam ar eu synhwyrau i bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio leol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylid rhoi gwybod yn well i bleidleiswyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl am yr addasiadau sydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, ac am y materion y mae angen i staff etholiadol eu hystyried wrth ddewis man cyfarfod sy'n ganolog ac sy'n gorfforol hygyrch.*

Argymhelliad 10: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i hybu cyfleoedd swyddi i staff etholiadol yn fwy effeithiol ymhlith pobl anabl.*

Argymhelliad 11: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydlynu mecanwaith effeithiol ar gyfer rhannu arfer da rhwng rhanddeiliaid allweddol.*

Argymhelliad 12: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hybu'r ffaith bod grantiau ar gael ar gyfer cyfarpar a hyfforddiant etholiadol.*

Atodiad 2

Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i adolygu hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn dilyn Adroddiad Etholiadau'n Eithrio 2007 Scope Cymru. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Medi 2007, derbyniwyd papur cwmpasu oddi wrth Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ac, o ganlyniad i'r drafodaeth, cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

Ymgymryd ag ymchwiliad yn canolbwyntio ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru, trwy:

- graffu ar gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad at sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn fwy hygyrch;
- gwneud argymhellion o ran y camau y dylid eu cymryd i gael cymaint o ddylanwad â phosibl ar yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2008.

Derbyniwyd tystiolaeth ar lafar fel a ganlyn:

EOC(3)-03-07 11 Hydref 2007

Scope Cymru
Y Comisiwn Etholiadol

EOC(3)-04-07 25 Hydref 2007

Anabledd Cymru
Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

EOC(3)-06-07 22 Tachwedd 2007

Dr Brian Gibbons, Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth:

Grŵp Mynediad Arfon
Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd Christine Priday, Cyngor Sir Caerdydd
Prosiect Cyngor Anabledd, Tor-faen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bro Morgannwg

Atodiad 3

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Lindsey Taber
Tîm Safonau Perfformiad
Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London
SW1P 2HW

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2007

Annwyl Lindsey

Yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd, fe ystyriodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yr ymgynghoriad ar safonau perfformiad drafft ar gyfer gweinyddu etholiadau a refferenda. Croesawodd y Pwyllgor y dangosyddion arfaethedig, yn benodol Dangosydd 7, a hoffem gynnig y sylwadau a ganlyn:

- Parthed y ddadl ynghylch dangosyddion penodol ynteu prif-ffrydio, mae yna sawl lle yn y papur ymgynghori yr awgrymodd y Pwyllgor y dylech gyfeirio'n benodol at bobl anabl. Er enghraifft, **Tabl 4: Dangosydd 3: Bwled 1af –** a oes angen i hwn fod yn fanwl ynghylch ystyr "adolygiad hygyrchedd" p'un ai'r bwriad yw adolygu mynediad pobl anabl yn unig?
- **Tabl 7: Dangosydd 6: 2il fwled –** a yw'r hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant yn benodol ar fynediad pobl anabl? Hoffai'r Pwyllgor argymell hefyd mai sefydliad anabledd ddylai gyflenwi'r hyfforddiant;
- **Tabl 13: Dangosydd 12 –** rhaid i'r Swyddog Canlyniadau sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch, ei bod ar ffurf hawdd i'w darllen, a'i bod ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd. Hoffai'r Pwyllgor argymell hefyd bod Iaith Arwyddion Prydain, a gydnabyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cael ei chynnwys hefyd;
- **Tabl 14: Dangosydd 13: bwled olaf –** yr arolwg hefyd i gynnwys holi pobl anabl ynglŷn â'u profiad o'r etholiad.

Rwy'n gobeithio bod y sylwadau hyn yn ddefnyddiol.

Yr eiddoch yn gywir

Ann Jones
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal